

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran Polisi Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025.

Jayne Bryant AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

07 Mawrth 2025

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025 ("y Rheoliadau") yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i gychwyn darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 2 (cyrrff etholedig a'u haelodau) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024").

Mae'r darpariaethau hynny i'w cychwyn ar 1 Ebrill 2025, trwy Orchymyn Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cychwyn Rhif 1) 2024 ("Gorchymyn 2024").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n ei gwneud yn bosibl i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud wedi eu cynnwys yn adran 71 o Ddeddf 2024 sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, deilliadol, canlyniadol, trosiannol neu arbed, sy'n rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2024. Mae adran 71(2) yn darparu y caiff y rheoliadau hynny ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

Gan mai dim ond is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan y Rheoliadau, mae adran 71(5) o Ddeddf 2024 yn pennu eu bod yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'w diddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o gychwyn darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2024, sy'n diddymu darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011") a sefydlodd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ("y Panel") gan nodi ei swyddogaethau, ac yn diddymu'r Panel drwy hynny. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi'r mwyafrif o'r swyddogaethau cydnabyddiaeth ariannol a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Panel i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn").

Mae'r Rheoliadau yn gwneud y newidiadau angenrheidiol i reoliadau a gorchmynion sydd ar hyn o bryd yn cynnwys cyfeiriadau at Fesur 2011 a/neu at y Panel.

Diwygir Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 i ddarparu, yn y dyfodol, y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar unrhyw lwfansau a delir i aelodau paneli apelau derbyn.

Diwygir Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 i ddarparu, yn y dyfodol, y bydd y Comisiwn yn penderfynu ar lwfansau neu daliadau a wneir i aelodau awdurdodau lleol sy'n cynnal busnes sy'n ymwneud â swyddogaeth awdurdod lleol, na ddylid ystyried eu bod yn creu buddiant sy'n rhagfarnu ar gyfer aelod.

Diwygir Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Awdurdodau Cyhoeddus Ychwanegol) 2010, ynghylch cymhwyso rhwymedigaethau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, i ddynodi'r Comisiwn yn gorff cyhoeddus yn lle'r Panel.

Diwygir Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 i ddirymu rheoliad 2 a oedd yn gwneud newidiadau penodol i Atodlen 2 i Fesur 2011 ynghylch aelodaeth y Panel. Diddymir Atodlen 2 i Fesur 2011 gan adran 56 o Ddeddf 2024 gydag effaith o 1 Ebrill 2025 trwy Orchymyn 2024.

Diwygir Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021 i ddirymu rheoliad 4, a oedd yn diwygio Mesur 2011 i nodi swyddogaeth cydnabyddiaeth ariannol y Panel ar gyfer aelodau awdurdodau perthnasol, gan gynnwys cyd-bwyllgorau corfforedig. Diddymir darpariaethau Mesur 2011 sy'n nodi swyddogaethau'r Panel gan adran 56 o Ddeddf 2024 gydag effaith o 1 Ebrill 2025 trwy Orchymyn 2024. Mae Deddf 2024 yn darparu y bydd y swyddogaethau cydnabyddiaeth ariannol hynny yn cael eu harfer gan y Comisiwn.

5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol gan mai dim ond diwygiadau canlyniadol technegol sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn gan mai dim ond diwygiadau technegol i is-ddeddfwriaeth y maent yn eu gwneud ac nid ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.